# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Eglwysbach

**Ysgol Eglwysbach**
**Eglwysbach**
**Conwy**
**LL28 5UD**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Eglwysbach

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Eglwysbach |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal ddydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sian Wyn Jones |
| Person â gofal | Dioned Williams |
| Nifer y lleoedd | 15 |
| Amrediad oedran y plant | 2 a hanner i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9.00 – 12.00 Dydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolwg cyntaf y lleoliad |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/01/2023 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 I ddatblygu medrau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu y plant yn fwy systematig

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn lleisio eu barn yn gyson. Er enghraifft, maent yn symud o amgylch yr ystafell yn hyderus o un weithgaredd i'r llall ac yn dewis eu hadnoddau yn hyderus.  Mae'r plant yn gwybod caiff eu teimladau eu hystyried. Er enghraifft, pan maent yn teimlo yn drist maent yn cael eu cysuro gan ymarferwyr.

Mae bron bob un o'r plant yn teimlo'n gwbl gartrefol yn y lleoliad ac yn mwynhau mynychu. Maent yn ymdopi'n dda iawn pan maent yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr wrth y drws. Erbyn iddynt gyrraedd y brif ystafell, mae bron pob un yn hapus ac yn mynd ati i chware yn syth, yn ymgartrefu'n gyflym iawn ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent wedi datblygu perthynas agos iawn gyda'r ymarferwyr ac maent yn barod i sgwrsio'n anffurfiol ag ymwelwyr. Er enghraifft, maent yn awyddus i rannu cacennau a chawl maent wedi eu creu yn y gegin fwd. Mae bron bob un yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n aeddfed gyda threfniadau'r lleoliad. Mae hyn yn creu sicrwydd i'r plant wrth iddynt ymdopi â phrofiadau newydd.

Mae rhan fwyaf o blant yn datblygu sgiliau cymdeithasol da. Maent yn cyfarch ei gilydd ac yn mynd yn syth i gyd chwarae'n hapus. Mae rhan fwyaf blant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr a'u cyfoedion. Er enghraifft, wrth y bwrdd byrbryd maent yn aros eu tro yn amyneddgar ac yn ymateb gyda plîs a diolch wrth dderbyn eu cwpanau a diod. Mae mwyafrif o'r plant yn deall pan bod angen helpu eu ffrindiau . Er enghraifft, pan oedd 'helpwr y dydd' methu gludo ei henw ar y bwrdd, aeth ei ffrind ati a'i  helpu drwy bwyso'r sticer yn galed.

Mae rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu yn fawr iawn. Er enghraifft, maent yn cael llawer o hwyl wrth greu gwahanol brydau bwyd neu wrth wthio tractorau i lawr y lôn yn gyflym.  Mae llawer o blant yn ymateb yn llawn cyffro wrth chwarae yn yr ardal allanol. Maent yn defnyddio'r offer ac yn datblygu eu sgiliau corfforol a mathemategol wrth iddynt greu cacennau, a lliwio siapau calonnau ar lechi neu ddarnau o bren.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau annibynnol yn arbennig o dda. Er enghraifft, maent yn mynd ati i dynnu eu hesgidiau, gwisgo trowsus ac esgidiau glaw a chotiau. Maent yn dangos balchder am gyflawni'r dasg drwy ddangos a dweud wrth ymarferwyr. Maent yn gwneud dewisiadau yn ôl eu diddordebau ac yn penderfynu sut i dreulio eu hamser. Maent yn mynd i'r ardal allanol yn frwdfrydig yn ogystal â dewis o'r amrywiol weithgareddau tu fewn. Maent yn dyfalbarhau'n briodol gyda'r gweithgareddau ac yn ymgolli yn eu chwarae am gyfnodau hir.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cadw at weithdrefnau dyddiol y lleoliad yn briodol. Gwna'r ymarferwyr ymdrech i gynnal gweithdrefnau hylendid da. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo yn rheolaidd ac yn diheintio'r byrddau'n ofalus cyn byrbryd. Nid ydynt wedi cael achos i weinyddu meddyginiaeth ond mae ganddynt bolisi addas a ffurflenni cywir i gofnodi pe byddai angen. Mae ymarferwr yn dilyn gweithdrefnau priodol ar gyfer cofnodi damweiniau ac anafiadau. Mae'r holl ymarferwyr yn hyderus ynglŷn â sut i weithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder am ddiogelwch a lles plentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn datblygu perthynas gynnes â'r plant ac yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig iawn ac yn atgoffa plant i rannu teganau ac i barchu ei gilydd. Maent yn annog y plant i ddatrys unrhyw wrthdaro drwy drafodaethau gyda'i gilydd, heb ymyrryd yn ormodol. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn amserol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu hunan hyder a dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu ei gilydd. Mae pob ymarferydd yn defnyddio iaith gadarnhaol gyda'r plant sy'n hyrwyddo ymddygiad da ac yn cefnogi'r plant yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr gyd bwysedd da o allu sefyll yn ôl ac arsylwi ar y chwarae, a bwydo'r plant gydag iaith berthnasol a gofyn cwestiynau pen agored iddynt. Mae ymarferwyr yn deall pwysigrwydd sefyll yn ôl ac arsylwi ar y plant yn chwarae. Maent yn bwydo iaith yn fedrus ac yn holi'r plant er mwyn eu sbarduno i feddwl drostynt eu hunain.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb i geisiadau plant i dynnu llun gyda chamera ac i ddefnyddio'r cyfrifiadur llechen.. Mae ymarferwyr yn datblygu cyfleoedd effeithiol i ymateb i ddiddordebau'r plant, ac yn eu holi'n bwrpasol wrth chwarae. Maent yn cynnig anogaeth i blant sydd yn gofyn am help, ac yn eu cefnogi i geisio rhoi tro ar dasgau penodol. Er enghraifft, maent yn rhoi cymorth i'r plant sydd yn gofyn am gymorth i wisgo eu hesgidiau glaw. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar berthynas hyfryd a dealltwriaeth gadarn o anghenion pob plentyn. O ganlyniad maent yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu profiadau dysgu diddorol i'r plant yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn llwyddo i greu dysgwyr chwilfrydig sy'n datblygu eu medrau'n llwyddiannus. Er enghraifft, wrth roi cyfleoedd ''r plant ymgolli yn eu chwarae wrth arbrofi cymysgu cyfeintiau gwahanol o ddŵr a phridd i greu cacennau, yn y gegin fwd.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn modelu iaith lafar yn effeithiol gan atgyfnerthu patrymau iaith ac yn ymestyn dealltwriaeth y plant trwy holi a herio'r plant i egluro beth maent yn ei wneud.. Er enghraifft, wrth iddynt drafod sut bydd y plant yn adeiladu tân er mwyn crasu marshmallows.

Mae’r ymarferwyr yn darparu adnoddau i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio’n ddigon bwriadus bob tro i adeiladu’n systematig ar eu medrau presennol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd amrywiol i sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn eu hannog i gasglu adnoddau, i balu ac adeiladu yn y pridd, ac i deithio ar hyd a thros rwystrau naturiol megis boncyffion sydd wedi dymchwel. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol a chynnig cyfleoedd I blant ddatrys problemau. Er enghraifft maent yn herio’r plant i feddwl am pa dractor fydd yn teithio lawr y bryn gyflymaf.

Mae’r ymarferwr yn goruchwylio’r plant yn effeithiol ac yn ymwybodol pryd i ymuno yn eu chwarae a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i gefnogi’r dysgu. Mae’r gweithdrefnau newydd i arsylwi ac asesu datblygiad y plant yn datblygu’n effeithiol ac mae ymarferwyr yn defnyddio’r wybodaeth i gynllunio'r camau nesaf yn dysgu’r plant yn dda. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda’r plant sut i wella’u gwaith a datblygu annibyniaeth.

Gwneir defnydd buddiol o’r pentref, lle mae’r ymarferwyr yn cerdded gyda’r plant i’r eglwys, ymweld â’r parc ac arsylwi ar fyd natur. Mae’r cyfleoedd hyn yn dechrau creu ymwybyddiaeth gwerthfawr i’r plant o’u cynefin.

Mae pwyslais cadarnhaol gan yr ymarferwyr ar ddatblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Maent yn dathlu amrywiaeth yn briodol trwy astudio gwyliau arbennig, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn llwyddiannus trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a hanes Santes Dwynwen.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ar gyfer y plant. Mae mynediad i’r adeilad trwy ddrws diogel ac mae’r gât allanol ar glo yn ystod oriau gweithredu. Gofynnir i ymwelwyr fewngofnodi yn brydlon a chedwir cofnodion manwl yn yr ysgol yn ogystal ac yn y gwasanaeth. Mae cofnodion cynnal a chadw’r adeilad yn gyfredol ac mae ymarferwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn gwirio a glanhau adnoddau’n rheolaidd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn llunio asesiadau risg trylwyr ar gyfer ardaloedd a gweithgareddau’r plant. Er enghraifft wrth sicrhau bod y byrddau cinio sydd yn cael eu cadw yn r ystafell yn ddiogel.

Mae ansawdd yr amgylchedd yn cynnig cyfleoedd da i blant chwarae a dysgu tu mewn a thu allan i’r adeilad. Er engrafit, mae ganddynt ardal goedwig sydd yn cynnwys gegin fwd a lle i eistedd a chymdeithasu. Mae arweinwyr yn darparu cyfleusterau toiled addas o fewn yr adeilad sy’n sicrhau cyfleoedd i barchu preifatrwydd plant wrth ymolchi. Mae’r ardal tu allan yn galluogi plant i ddatblygu’n gorfforol, yn greadigol ac yn ymchwiliol. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau bod yn ddychmygol yn yr ardal goedwig tu allan.

Mae ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol. O ganlyniad, mae’r plant yn dechrau dod yn gyfarwydd ag estyn a dychwelyd offer i’r mannau priodol.Mae’r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon uchel, ac maent yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda. Yn ogystal, anogir datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda drwy gael mynediad at deganau a llyfrau amlddiwylliannol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Maegan yr unigolyn cyfrifol, yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli weledigaeth gadarnhaol ac maent yn sicrhau bod prosesau effeithlon yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar greu gwelliannau cyson i weithdrefnau'r lleoliad. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar sicrhau darparu gwasanaeth o safon uchel i'r plant o ran lles, gofal a dysgu o fewn awyrgylch deuluol, hapus a Chymreig.

Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae gan y pwyllgor rheoli drefniadau priodol i fonitro gwaith y lleoliad. Maent yn dilysu penderfyniadau'r unigolyn cyfrifol a'r arweinydd yn rheolaidd i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella. Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau targedau dibynadwy fel gwella'r ddarpariaeth ar gyfer ymestyn medrau creadigol a chorfforol y plant trwy brynu offer newydd. O ganlyniad mae medrau a hyder corfforol y plant yn datblygu'n dda.

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad gan gynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r rhieni, yr awdurdod lleol a Mudiadau cefnogi, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando'n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu'r arferion arsylwi ac asesu, er mwyn adnabod llwyddiannau a chamau nesaf yn natblygiad plant yn well.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli wedi dilyn prosesau recriwtio diogel, yn gadarn ac yn amserol. Maent yn meddu ar system briodol o oruchwylio ac arfarnu sy'n arwain at dargedau cytunedig.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwariant y gyllideb a grantiau yn erbyn targedau yn effeithiol ac yn dyrannu adnoddau'n ddoeth. Mae hyn yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gymwys, ac iddynt fynychu hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant yn fwriadus. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ynglŷn a gweithredu gwahanol agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, mae penderfyniadau'r lleoliad yn hyrwyddo profiadau cyffrous a gwerthfawr i'r plant.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau buddiol gyda'r rhieni a gofalwyr y plant a gydag ystod o sefydliadau lleol fel yr eglwys a'r capel a gyda thrigolion y gymuned leol. Maent yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae gan ymarferwyr berthynas llwyddiannus gyda'r ysgol leol. Maent yn rhannu arferion ac arbenigeddau ac yn rhannu'r safle'n ddeallus. Mae hyn yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/03/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 28 Mawrth 2023